Gweithdy UNCRC gyda throseddwyr ifanc mewn Canolfan Gorchymyn Mynychu

Cynhaliodd Plant yng Nghymru ddau weithdy gyda phobl ifanc a oedd yn cyflawni gofynion Gorchymyn Canolfan Fynychu. Mae Gorchymyn Canolfan Fynychu yn dedfrydu person ifanc i fynychu canolfan fynychu.

Prif ddiben canolfannau mynychu yw gosod cyfyngiad ar amser hamdden troseddwyr ifanc – maent ar agor ar ddydd Sadwrn am ddwy i dair awr. Mae eu rhaglenni'n canolbwyntio ar waith grŵp i roi sgiliau sylfaenol i'r mynychwyr – llythrennedd a rhifedd, sgiliau bywyd, coginio, cymorth cyntaf a rheoli arian, er enghraifft – yn ogystal ag annog mynychwyr i wneud defnydd gwell o'u hamser hamdden. Mae'r rhaglen yn cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth o fictimau hefyd, sy'n ystyried effaith troseddu ar unigolion a'r gymuned a sut y gallai'r person ifanc unioni pethau; a sesiynau ar ymwybyddiaeth cyffuriau ac alcohol, a materion iechyd rhywiol.

Edrychodd y gweithdai ar beth oedd hawliau dynol a sut roedd UNCRC yn gysylltiedig â'r rhain. Yna canolbwyntiodd staff Plant yng Nghymru ar rai erthyglau penodol UNCRC sy'n fwyaf perthnasol i'w sefyllfa fel troseddwyr ifanc. Yn ystod y sesiynau cymerodd 22 o bobl ifanc ran yn y gweithgarwch. Dim ond un ferch oedd ymhlith y bobl ifanc.

Erthyglau a gafodd eu trafod yn y gweithdy

Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i chi.

O'u holi am erthygl 3, ymateb llethol y bobl ifanc oedd nad oeddent yn teimlo bod sefydliadau wedi ymddwyn er eu lles gorau nhw. Roedd eu profiadau'n canolbwyntio'n bennaf ar eu hamser yn yr ysgol a'u hymwneud â'r heddlu.

Wrth siarad am yr heddlu yn y ddwy sesiwn, dwedodd pobl ifanc fod eu hymwneud yn negyddol iawn. Dwedodd llawer o'r bobl ifanc, unwaith bod yr heddlu yn eu hadnabod, roeddent yn eu targedu ac yn dwysáu sefyllfaoedd yn fwriadol. "Maen nhw'n gweld rhai pobl ac maen nhw eisiau'ch targedu chi, maen nhw wrth eich ymyl chi ac yn eich cythruddo chi." "Os nad oeddwn i wedi bod mewn helynt, fasen nhw ddim yn fy stopio i nawr, ond ar ôl i chi gael eich dal unwaith fyddan nhw'n pigo arnoch chi'n fwriadol i geisio codi'ch gwrychyn chi." "Maen nhw'n eich codi'ch gwrychyn chi achos maen nhw eisiau cael ymateb, maen nhw eisiau'ch blino chi ac yna gallan nhw eich cloi chi i ffwrdd." "Maen nhw'n ceisio eich cael eich i frathu, a phan fyddwch chi'n brathu gallan nhw eich arestio chi am anhrefn gyhoeddus." "Yr un heddweision sy'n ei wneud drwy'r amser. Os nad ydyn nhw'ch eich hoffi chi maen nhw'n cadw i'ch targedu chi." "Maen nhw'n eich gweld chi ac yn parhau i'ch stopio chi'n gyson. Maen nhw'n cadw ymlaen ac yn fy aflonyddu fi, roedd yn arfer digwydd yn gyson felly dwi ddim yn mynd allan llawer nawr."

Roedd dau o'r bobl ifanc yn gallu nodi adeg pan oeddent wedi cael eu trin yn fwy adeiladol gan yr heddlu pan oeddent yn hongian o gwmpas ac yn yfed rhywle na ddylent wedi bod. Daeth yr heddlu atynt a siarad â nhw a sgwrsio cyn gofyn a fyddent yn fodlon symud draw i rywle lle na fyddai'n broblem,

gan awgrymu lle gallant fynd. Roeddent yn gweld hyn fel ymddygiad derbyniol a chydymffurfio â'r cais oherwydd y ffordd y siaradwyd â nhw.

Erthygl 28 – Mae gennych chi hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu'ch urddas dynol

Erthygl 29 - Dylai addysg ddatblygu'ch personoliaeth a'ch doniau i'r eithaf. Dylai eich annog i barchu diwylliant eich rhieni, eich diwylliant chi a diwylliannau eraill

Canolbwyntiodd y drafodaeth ynghylch yr ysgol ar addysg uwchradd a sut roedd y bobl ifanc wedi brwydro gyda sut cawsant eu haddysgu, y dulliau dysgu a chynnwys yr hyn roeddent yn ei ddysgu. Roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc wedi ymeithrio o'r ysgol neu wedi cael eu gwahardd cyn cyrraedd blwyddyn 11 gyda rhai ohonynt y gadael yn sylweddol gynharach. "Maen nhw'n eich trin chi fel plant bach, dylai fod mwy o gyfleoedd i hyfforddi, 'dyw rhai pobl ddim yn dysgu yn y ffordd mae ysgolion yn ei wneud e". "Does dim angen i chi ysgrifennu bob tro i gael eich addysgu, gallwch chi ddysgu drwy siarad." Roedd pobl ifanc yn gallu nodi pethau roeddent yn dda ynddynt fel cymryd beic yn ddarnau a'i ailadeiladu os nad oedd yn gweithio, ond eu teimlad oedd nad oedd gan eu doniau nhw unrhyw le yn yr ysgol.

I'r bobl ifanc roedd eu perthynas â'r athro yn hanfodol i'w diddordeb, "Mae rhai athrawon yn iawn, maen nhw'n eich trin chi gyda pharch ac yn gadael i chi weithio yn ôl eich cyflymder eich hun. Mae rhai eraill yn eich poeni chi'n gyson ac yn eich rhuthro chi hyd yn oed os nad ydych chi'n deall y gwaith". Mater arall a oedd wedi peri problemau oedd pan oeddent yn tynnu ymlaen yn dda ag athro ac wedi bod yn gwneud cynnydd da, ac yna gadawodd yr athro hwnnw a chymerwyd ei le gan athro cyflenwi nad oedd yn eu hadnabod nhw na'r gwaith yn dda. Soniodd nifer o'r bobl ifanc am y profiad hwn ac yn ôl pob golwg roedd yn gatalydd i golli diddordeb a diffyg cymwysterau. Dwedant mai'r hyn sy'n bwysig mewn athro yw ei fod "yn deall beth rydych chi'n mynd drwyddo gartref".

Erthygl 37 – Os torrwch y gyfraith ni ddylech gael eich trin yn greulon. Ni ddylech gael eich gosod mewn carchar gydag oedolion a dylech allu cadw mewn cysylltiad â'ch teulu.

Nododd sawl un o'r bobl ifanc fod yr heddlu wedi defnyddio grym gormodol "Ces i fy llusgo i lawr lôn; roedden nhw'n fy nghicio ac yn fy mwrw â'u pen-gliniau." "Rhoddon nhw efynnau llaw arna i a'm rhoi i yn y fan ac yna gyrru'n gyflym a brecio er mwyn i mi fwrw fy mhen. Maen nhw'n gyrru'n gyflym o gwmpas cornelau i'ch taflu chi o gwmpas." "Maen nhw'n rhoi gefynnau arnoch chi'n dynn iawn fel eu bod nhw'n torri i mewn i chi". "Deffroes i yn fy nghell yn gleisiau i gyd, roeddwn i eisiau cwyno ond doedden nhw ddim yn gadael i mi wneud."

Teimlai'r bobl ifanc i gyd nad oed unrhyw bwynt cwyno am driniaeth wael. "Rydych chi'n methu dweud dim yn y llys. 'Dyn nhw ddim yn mynd i wrando". "Dwi ddim yn credu y bydd unrhyw beth rydyn ni'n ei ddweud yn gwneud unrhyw wahaniaeth." "Beth yw pwynt dweud dim os yw'n fater o'u gair nhw yn erbyn ein gair ni. Does neb yn mynd i wrando."

Erthygl 40 – Os cewch eich cyhuddo o dorri'r gyfraith dylech gael cymorth cyfreithiol. Ni ddylai dedfrydau o garchar gael eu defnyddio i blant ond am y troseddau mwyaf difrifol.

Roedd yr holl bobl ifanc yn y gweithdai yn destun Gorchymyn Mynychu, roedd sawl yn droseddwyr mynych ac yn gwisgo tagiau ond roedd hyn wedi eu cadw allan o ddedfrydau o gaethiwed. Dwedodd pob un ohonynt fod yr heddlu bob amser yn cynnig gwasanaethau cyfreithiwr iddynt.